
# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | **Cymeradwyo Cynllun Cydweithio (Canolfan Monitro Arfordirol Cymru)** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones** |
| **Swyddog Perthnasol:** | **Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **20 Chwefror, 2024** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **PENDERFYNIAD A GEISIR** |
| 1.1 | Rhoi cymeradwyaeth i Wynedd barhau i gyd-weithio gyda'r Ganolfan Monitro Arfordirol Cymru a neilltuo adnoddau ar gyfer hynny. |
| 1.2 | Dirprwyo awdurdod i Bennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC mewn ymgynghoriad a Phennaeth Adran Cyfreithiol i gymeradwyo'r Cytundeb Cydweithio. |
| | |
| **2.** | **BETH YW'R RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD** |
| 2.1 | Diben yr adroddiad hwn yw derbyn cadarnhad o gyfraniad Gwynedd fel Aelod o Fwrdd y Ganolfan Monitro Arfordirol Cymru, cyflwyno'r Cytundeb Cydweithio sydd wedi ei lunio gan y Consortiwm a'i dderbyn yn ffurfiol. |
| | |
| **3.** | **CYFLWYNIAD A RHESYMEG** |
| 3.1 | Mae gwella cydlyniant a chysondeb wrth fonitro'r arfordir a chasglu data yn sail ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol yng Nghymru ac yn un o flaenoriaethau Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol yng Nghymru. |
| 3.2 | Yn 2018, derbyniwyd sêl bendith gan Lywodraeth Cymru i ailsefydlu Canolfan Monitro Arfordirol Cymru (CMAC). Prif bwrpas y Ganolfan yw monitro'r newid ffisegol arfordir Cymru ac felly llunio rhaglen monitro arfordirol safonol a chost effeithiol ar ran Awdurdodau Lleol arfordirol Cymru. Yn ogystal â hyn, mae'r ganolfan yn gyfrifol am gynhyrchu tystiolaeth sy'n sail i benderfyniadau ynglŷn â rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol. |
| 3.3 | Arianni'r CMAC yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru. Mae'n darparu gwybodaeth allweddol wrth fonitro newidiadau ffisegol ar arfordir Cymru gyfan. Gwneir hynny drwy rannu'r arfordir yn becynnau Gwaith a sicrhau fod arolygon cylchol yn cael ei gwneud trwy dendro'r gwaith i gontractwyr/cwmnïau arolygu, ac yna dadansoddi'r canlyniadau. Trwy Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) mae Gwynedd yn un o'r contractwyr yma. |

| | |
|---|---|
| 3.4 | Diffinnir Awdurdodau Lleol arfordirol yn Awdurdodau Rheoli Perygl sydd â swyddogaethau statudol yn ôl y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010). Mae'r cyfrifoldebau yma yn cynnwys archwilio a chynnal amddiffynfeydd arfordirol, ac mae monitro lefelau traethau a phatrwm unrhyw newidiadau yn hanfodol er mwyn penderfynu lefel y bygythiad i'n hamddiffynfeydd dros amser. |
| 3.5 | Mae staff CMAC wedi eu cyflogi gan Gyngor Bro Morgannwg. Rheolir y Ganolfan gan fwrdd o dri o Awdurdodau Lleol arfordirol (Bro Morgannwg, Conwy a Gwynedd) yn ogystal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fel rhan o'r bwrdd sy'n arwain CMAC, mae Cyngor Gwynedd yn cyfrannu a dylanwadu at ei gyfeiriad strategol ar ran yr holl Awdurdodau Lleol arfordirol Cymru o fewn gyfundrefn genedlaethol (gweler Ffigwr 1). |
| | **Ffigwr 1**.<br><br> |
| 3.6 | Bu'r sefydliadau hynny'n cydweithio ers 2019 a dymunant ffurfioli'r berthynas hon er mwyn sicrhau parhad y gwasanaethau monitro. Y nod yw sefydlu a gwella rhwydwaith genedlaethol o waith monitro arfordirol cyson er mwyn gwella penderfyniadau strategol ac osgoi tybiaethau ac ansicrwydd. |
| **4.** | **RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD** |
| 4.1 | Mae arfordir Gwynedd yn ymestyn dros 180 milltir, gyda thua 15 milltir wedi ei amddiffyn gan strwythurau sydd o fewn perchnogaeth y Cyngor. Mae'r amddiffynfeydd yma yn bennaf wedi eu lleoli er mwyn gwarchod ein cymunedau, ac mae eu hoed a'u cyflwr yn amrywio yn fawr o un lleoliad i'r llall. Mae data arfordirol dibynadwy yn hanfodol i'r Cyngor fedru adnabod patrymau hir dymor a pharatoi i amddiffyn ein cymunedau ar gyfer y dyfodol. |
| 4.2 | Hefyd mae Cyngor YGC fel contractwr i CMAC yn darparu staff i gynnal yr arolygon arfordirol o fewn Gwynedd, a hefyd yn cynorthwyo yng Ngheredigion a Sir Fôn fel mae adnoddau yn caniatáu. Mae hynny'n cynhyrchu incwm o ddeutu £35k yn flynyddol a hefyd yn gwella sgiliau staff YGC, sydd wedyn yn medru defnyddio'r sgiliau hynny ar brosiectau eraill ar ran y Cyngor. Mae CMAC hefyd wedi cynorthwyo YGC i fuddsoddi mewn cyfarpar arolygu priodol sydd hefyd ar gael ar gyfer rhaglenni gwaith oni bai am fonitro arfordirol. |

| | |
|---|---|
| 4.3 | Mae cynnal y ffrwd incwm yma yn sail gadarn i alluogi YGC i ymestyn y capasiti syrfeo i'r dyfodol, nid yn unig ar ein harfordir ond yn gyffredinol fel rhan annatod o anghenion datblygu prosiectau ble bynnag y maent. |
| 4.4 | Os yn cymeradwyo'r gytundeb, ni fydd YGC yn gorfod cystadlu am y gwaith. |
| 4.5 | Drwy gyfrannu i reolaeth CMAC mae Cyngor Gwynedd yn dangos uchelgais i fod ar flaen y gad wrth reoli'r arfordir yng Nghymru, a hynny er budd holl drigolion Gwynedd. |
| 4.6 | Timau cyfreithiol yr holl Awdurdodau Lleol a ddechreuodd y gwaith o ddrafftio cytundeb bwrdd CMAC. Dros amser, fodd bynnag, daeth yn amlwg y byddai'n well cael safbwynt cyfreithiol annibynnol, allanol wrth lunio testun y cytundeb. Oherwydd Covid bu oedi cyn y cyflwynwyd y fersiwn terfynol i'r Awdurdodau Lleol. Er nad oes fawr o risg yn gysylltiedig â chydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill o'r un anian, mae angen yn awr ffurfioli'r cytundeb er mwyn cydymffurfio â rheolau gweithdrefnau contractau pob Awdurdod. Lluniwyd y Cytundeb Cydweithio ar ran y partïon ac mae Cyngor Gwynedd yn awr yn ceisio cymeradwyaeth i lofnodi'r cytundeb hwnnw. |
| | |
| **5.** | **CAMAU NESAF AC AMSERLEN** |
| 5.1 | Parhau yn Aelod o Fwrdd CMAC, cadarnhau bod Cyngor Gwynedd yn derbyn y gytundeb cydweithio a dirprwyo awdurdod i Bennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC mewn ymgynghoriad a Phennaeth Adran Cyfreithiol gymeradwyo unrhyw newidiadau yn y cytundeb yn y dyfodol ar ran y Cyngor. |
| | |
| **6.** | **SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL** |
| | **Prif Swyddog Cyllid:**<br><br>Rwyf yn fodlon na fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad am adnoddau ychwanegol – lle cyfeirir yn y penderfyniad a geisir at neilltuo adnoddau mae hynny'n cyfeirio at adnoddau cyfredol y gwasanaeth. Rwyf yn croesawu'r bwriad i ffurfioli'r trefniadau, fel sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad.<br><br>**Y Swyddog Monitro:**<br><br>Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad. |